O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 1014 (Cy. 239)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentrefoelas, Conwy) a Chefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Medi 2021* |
| *Yn dod i rym* | *8 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A5 a'r A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd bod digwyddiad perthnasol, sef Cam 4 y Tour of Britain, yn cael ei gynnal ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentrefoelas, Conwy) a Chefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Medi 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A5 Maentwrog i Fan i’r Dwyrain o Gonwy a chefnffordd yr A470 Llundain i Gaergybi fel a ganlyn:

(i) y darn o gefnffordd yr A5 yn Sir Conwy sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4407 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r B5113, ym Mhentrefoelas;

(ii) y darn o gefnffordd yr A470 yn Sir Conwy sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r B5427 (Ffordd Cae’r Melwr) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r B5106 (y Bont Fawr) yn Llanrwst.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(i) unrhyw gerbyd gwasanaeth cyhoeddus;

(ii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;

(iii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu’r gwasanaeth ambiwlans;

(iv) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o’r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(v) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddiogan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi’r digwyddiad ac am resymau diogelwch y digwyddiad.

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 00:00 o’r gloch ar 8 Medi 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r cefnffyrdd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaff.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

*Andy Falleyn*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cymru
7 Medi 2021